**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk on Dydd Llun, 22ain Medi, 2025 at 10.00 am**

**PRESENT:** Cynghorydd Sir Tudor Thomas, (Chairman)

Cynghorwyr Sir: M. Newell a Jackie Strong

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Linda O'Gorman | Prif Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Winn | Licensing Officer |
| Julian Sanders | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**APOLOGIES:**

Ddim

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. **Cais i amrywio Trwydded Mangre - Llanvetherine Court, Llanvetherine Court Farm Road, Llanwytherin.**

Fe wnaethom ystyried cais i amrywio y drwydded mangre dan Ddeddf Trwyddedu 2003 o Mr Hiw Evans i Mr Edward Evans ar gyfer y canlynol:

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk on Dydd Llun, 22ain Medi, 2025 at 10.00 am**

| Trwydded Gyfredol | Trwydded Arfaethedig |
|---|---|
| **Cerddoriaeth Fyw*, Cerddoriaeth wedi ei Recordio****<br>Dyddiau Iau:12.00-00.00,<br>Dyddiau Gwener: 00.00-02.00 a 12.00-00.00, Dyddiau Sadwrn: 00.00-06.00 a 11.00-00.00, Dyddiau Sul: 00.00-06.00 a 11.00-20.00<br><br>Ar Benwythnosau Gwyliau Banc: Amserau Dyddiau Sul 00.00-06.00 a 11.00-00.00, Amserau Dyddiau Llun 00.00-06.00 a 11.00-20.00. Nos Calan : 16.00 - 06.00.<br>*Nid oes angen trwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw o fewn y fangre sydd â thrwydded cyn belled â'i bod yn digwydd rhwng 08.00-23.00 o'r gloch ac nad yw'r gynulleidfa yn fwy na 500 o bobl.<br>**Nid oes angen trwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw o fewn y fangre sydd â thrwydded cyn belled â'i bod yn digwydd rhwng 08.00-23.00 o'r gloch ac nad yw'r gynulleidfa yn fwy na 500 o bobl.<br><br>**Lluniaeth Hwyrnos**<br>Dyddiau Iau: 23.00-00.00, Dyddiau Gwener: 00.00-02.00 a 23.00-00.00, Dyddiau Sadwrn: 00.00-05.00 a 23.00-00.00, Dyddiau Sul:00.00-05.00<br>Ar Benwythnosau Gwyliau Banc : Amserau Dyddiau Sul 23.00-05.00, Amserau Dyddiau Llun 23.00-05.00<br>Nos Calan : 23.00 - 05.00<br><br>**Cyflenwi Alcohol**<br>Dyddiau Llun-Iau: 12.00-22.00, Dyddiau Gwener: 00.00-02.00 a 11.00-00.00<br>Dyddiau Sadwrn: 00.00-06.00 a 11.00-00.00, Dyddiau Sul: 00.00-06.00 a 10.00 - 23.00<br>Ar Benwythnosau Gwyliau Banc: Amserau Dyddiau Sul 00.00-06.00 a 11.00-00.00, Amserau Dyddiau Llun 00.00-06.00 a 11.00-20.00, Nos Calan: 16.00 - 06.00 | **Cerddoriaeth Fyw, Cerddoriaeth wedi'i Recordio (tu mewn a'r tu allan)**<br>Dyddiau Llun - Mercher:10:00–24:00 o'r gloch, Dyddiau Iau 10.00-04:00 o'r gloch<br>Dyddiau Gwener a Sadwrn: 10:00–06:00 o'r gloch, dyddiau Sul: 10:00–04:00 o'r gloch, Gwyliau Banc a Nos Calan: 10:00 –06:00 o'r gloch.<br>Ni fydd cerddoriaeth fyw yn digwydd y tu allan ar ôl 23:00 o'r gloch. Byddai angen penderfynu lefelau sain yn ôl gwiriadau clywededd mewn eiddo cyfagos.<br><br>**Lluniaeth Hwyrnos**<br>Dyddiau Llun – Mercher: 23:00-24.00 o'r gloch, Dyddiau Iau 23:00-04:00 o'r gloch,<br>Dyddiau Gwener a Sadwrn: 23:00–05:00 o'r gloch, Nos Calan a Dydd Calan – 23:00 – 05:00 o'r gloch<br><br>**Oriau alcohol (i'w yfed ar y safle neu i ffwrdd o'r safle)**<br>Dyddiau Llun - Mercher:10:00–23.30 o'r gloch, Dyddiau Iau: 10:00-03:30 o'r gloch,<br>Dyddiau Gwener a Sadwrn: 10:00–05:30 o'r gloch, Dyddiau Sul: 10:00– 03:30 o'r gloch,<br>Gwyliau Banc a Nos Calan: 10:00– 05:30 o'r gloch<br>**Oriau agor:** 00:00– 00:00 o'r gloch |

https://www.youtube.com/live/e38_Twtb3Hw?si=6y3eRtWQRrrgWiR_&t=256

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk on Dydd Llun, 22ain Medi, 2025 at 10.00 am**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeiswyr i'r cyfarfod a chyflwynodd aelodau'r Is-bwyllgor a'r Swyddogion oedd yn bresennol ac esboniodd y protocol ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd yr ymgeiswyr iddynt dderbyn yr adroddiad a threfn y gwrandawiad a chydnabod y byddent yn symud ymlaen heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Cafodd y materion a'r manylion allweddol eu darllen yn uchel i'r Is-bwyllgor.

Roedd y gwrthwynebwyr wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig ond nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod.

Cafodd yr ymgeiswyr gyfle wedyn i annerch yr Is-bwyllgor i gyflwyno unrhyw esboniadau perthnasol. Yn dilyn hyn, gofynnodd Aelodau'r Is-bwyllgor gwestiynau i'r ymgeiswyr a dilynodd trafodaeth. Cafodd yr ymgeiswyr wedyn gyfle i grynhoi.

Yn dilyn y cwestiynau, gadawodd aelodau'r Is-bwyllgor a Chyfreithiwr Cyngor Sir Fynwy y cyfarfod i ystyried a thrafod y canfyddiadau.

Ar ôl ail-ddechrau, dywedodd y Cyfreithiwr fod yr Is-bwyllgor wedi penderfynu yn unfrydol i gymeradwyo'r cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor y rhesymau canlynol am y penderfyniad i gymeradwyo'r cais:

1. Mae'r ymgeiswyr wedi cytuno i gydymffurfio â'r holl amodau a nodir gan amodau'r Heddlu.

2. Mae'r ymgeiswyr wedi cydnabod y problemau/materion o gonsyrn a godwyd gan yr ymgeiswyr ac mae'r Is-bwyllgor yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd gan yr ymgeisydd i optwng lefelau sŵn (e.e. gweithredu mesurau atal sŵn).

3. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r gwrthwynebiadau trwyddedu a gynhwysir yn Neddf Trwyddedu 2003. Nid oedd gan yr Is-bwyllgor unrhyw bryderon sylweddol yng nghyswllt y pedair amcan trwyddedu.

4. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i gyffordd y briffordd i fynd mewn/allan o'r fangre ac ystyriodd ddiogelwch y cyhoedd, sy'n un o'r Amcanion Trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Gwnaeth yr Is-bwyllgor yr argymhellion canlynol i liniaru'r risg:

- Mae gwrych yr ymgeisydd sy'n agos at y gyffordd i gael ei gynnal i roi gweledEdd da i ddefnyddwyr ffordd a cherddwyr.
- Bod yr ymgeiswyr yn rhoi hysbysiad ar eu gwefan am y gyffordd i fynd i mewn ac allan o'u mangre a bod angen gofal wrth fynd i mewn a gadael y fangre a mynd ar y briffordd.

- Hysbysiad i fod yn amlwg yn yr eiddo am y gyffordd a bod angen gofal wrth fynd i mewn a gadael yr eiddo a mynd ar y briffordd.

**The meeting ended at 11.03 am**